Wythnos Elusennau Cymru 2027

Pecyn Ymgyrchu ar gyfer Ysgolion

Mewn partneriaeth â

Trefnwyd gan

Cyflwyniad

Annwyl Bennaeth

Wythnos Elusennau Cymru – Dathlu'r Gwahaniaeth y Gallwn ei Wneud

Rydym yn falch iawn o wahodd eich ysgol i gymryd rhan yn Wythnos Elusennau Cymru, cyfle arbennig i ddathlu'r cyfraniad anhygoel y mae elusennau a gwirfoddolwyr yn ei wneud i gymunedau ledled Cymru.

Mae elusennau yn chwarae rhan bwysig yn ein cymdeithas. Maen nhw'n cefnogi plant a theuluoedd, yn diogelu ein hamgylchedd a'n bywyd gwyllt, yn helpu pobl sy'n wynebu amgylchiadau anodd, yn cryfhau cymunedau ac yn cynnig cyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd a gwneud gwahaniaeth.

Mae Wythnos Elusennau Cymru yn ymwneud â dathlu'r gwaith hwn ac, yn bwysig, yn helpu plant a phobl ifanc i ddeall y gall pawb wneud gwahaniaeth.

Cystadleuaeth Masgot Wythnos Elusennau Cymru 2027

Fel rhan o'r ymgyrch eleni, rydym yn gwahodd plant oedran cynradd ledled Cymru i gymryd rhan yng Nghystadleuaeth Masgot Wythnos Elusennau Cymru.

Rydym yn chwilio am blant i ddylunio masgot hwyliog a dychmygus sy'n cynrychioli ysbryd elusennau a gwirfoddoli yng Nghymru.

Rydym am i blant feddwl am:

- Sut gallwn ni helpu eraill
- Pwysigrwydd caredigrwydd a gwirfoddoli
- Gofalu am ein cymunedau a'n hamgylchedd
- Helpu anifeiliaid a'r rhai sydd angen cymorth
- Beth sy'n gwneud Cymru a'n cymunedau yn arbennig

Mae'r gystadleuaeth wedi'i chynllunio i fod yn hwyl, yn greadigol ac yn hygyrch i bob plentyn 4-11 oed.

Bydd y dyluniad buddugol nid yn unig yn dod yn fasgot Wythnos Elusennau Cymru, a fydd yn ein helpu i hyrwyddo'r ymgyrch a dathlu cyfraniad elusennau a gwirfoddolwyr ledled Cymru, ond bydd hefyd yn ennill iPad a £1000 i'w ysgol.

Pecyn Ymgyrchu Wythnos Elusennau Cymru

Er mwyn ei gwneud hi'n hawdd i'ch ysgol gymryd rhan, rydym wedi cynnwys rhai gweithgareddau awgrymedig i helpu plant i edrych ar:

- Beth yw elusen?
- Beth mae gwirfoddoli yn ei olygu?
- Sut mae elusennau yn helpu pobl a chymunedau?

Rydym yn gobeithio y bydd Wythnos Elusennau Cymru yn ysbrydoli plant i weld eu hunain fel hyrwyddwyr elusennau bach a deall nad oes rhaid gwneud rhywbeth mawr i helpu eraill.

Gall gweithred garedig, rhoi amser, helpu rhywun mewn angen neu ofalu am ein cymuned leol i gyd wneud gwahaniaeth.

Byddem wrth ein bodd pe bai eich ysgol yn ymuno â ni i ddathlu'r bobl a'r mudiadau ledled Cymru sy'n rhoi eu hamser, eu hegni a'u cefnogaeth i wneud ein cymunedau'n gryfach.

Diolch am ein helpu i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o wirfoddolwyr a hyrwyddwyr cymunedol.

Edrychwn ymlaen at weld syniadau masgot gwych eich plant!

Gyda dymuniadau gorau,

Tîm Wythnos Elusennau Cymru

Ynglŷn ag Wythnos Elusennau Cymru

Mae Wythnos Elusennau Cymru, a noddir gan y Gronfa Loteri Gymunedol, yn gyfle i gydnabod a dathlu'r holl waith y mae pobl a mudiadau ar draws y sector gwirfoddol yng Nghymru yn ei wneud i ddod ag ychydig o oleuni i'r tywyllwch. Mae'n gyfle i ddod at ein gilydd a dangos gwerthfawrogiad, i atgoffa pobl bod yr hyn y maen nhw'n ei wneud yn gwneud gwahaniaeth.

Cynhelir Wythnos Elusennau Cymru rhwng 8 a 12 Chwefror 2027. Mae gan Gymru hanes hir o wirfoddoli a gweithredu gwirfoddol, rhywbeth sy'n parhau i fod yn rhan fawr o ddiwylliant Cymru heddiw. Mae elusennau nid yn unig yn achubiaeth i'r rhai mwyaf agored i niwed, maenn nhw yno i bobl ar yr adegau da a drwg, yn cymryd camau bach sy'n cyfrannu at wneud gwahaniaeth mawr.

Trefnir Wythnos Elusennau Cymru gan CGGC.

Mae rhagor o wybodaeth am Elusennau Cymru ar gael yn https://wythnoselusennau.cymru/

Ynglŷn ag CGGC

Fel y corff cymorth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru, mae CGGC yn bodoli i alluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.

Mae rhagor o wybodaeth am CGGC ar gael yn wcva.cymru

Cystadleuaeth Masgot Wythnos Elusennau Cymru

Dyluniwch fasgot newydd #WythnosElusennauCymru ac enillwch iPad a rhodd o £1000!

Eleni rydym yn gwahodd pob plentyn rhwng 4 ac 11 oed i fod yn greadigol a dylunio masgot newydd sbon i ddathlu Wythnos Elusennau Cymru! Gallai'r masgot fod yn anifail, cymeriad hudolus, archarwr, neu rywbeth cwbl unigryw. Rydym eisiau gweld dyluniadau lliwgar, dychmygus sy'n cynrychioli caredigrwydd, helpu eraill, cyfeillgarwch, a'r gwaith anhygoel y mae elusennau yn ei wneud ledled Cymru. Bydd yr enillydd yn derbyn iPad a £1000 i'w roi i'w hysgol neu elusen ddewisol. Gadewch i'ch dychymyg redeg yn wyllt a dangos i ni beth mae elusennau yn ei olygu i chi!

Sut i gystadlu

Gallwch lunio, paentio, neu greu dyluniad y masgot ar unrhyw gyfrwng, ffisegol neu ddigidol.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys: enw cyntaf, oedran ac ysgol y crewyr.

Cyflwynwch eich Mascot!

Postiwch eich dyluniad i: CGGC, Un Rhodfa'r Gamlas, Heol Dumballs, Caerdydd, CF10 5BF

Neu anfonwch lun neu ffeil ddigidol drwy e-bost i: newyddion@wcva.cymru

Cofiwch gystadlu erbyn 23 Hydref 2026

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen rheolau a thelerau ac amodau llawn y gystadleuaeth yma.

Syniadau gwersi am elusennau

Rydym wedi cynnwys rhai syniadau isod i'ch helpu i siarad â disgyblion am waith pwysig elusennau a gwirfoddolwyr. Byddem wrth ein bodd pe bai disgyblion yn gallu gwneud y canlynol erbyn diwedd y wers:

- Deall beth yw elusen
- Deall bod elusennau yn helpu pobl, anifeiliaid a chymunedau
- Deall beth yw gwirfoddolwr
- Deall bod Wythnos Elusennau Cymru yn dathlu gwaith elusennau a gwirfoddolwyr
- Cael cyfle i ddylunio Masgot ar gyfer cystadleuaeth Wythnos Elusennau Cymru

Pwy sydd angen help?

Rhowch y sefyllfaoedd isod ar y bwrdd a gofynnwch i'r disgyblion sut allwn ni helpu:

- Mae angen help ar ganolfan achub anifeiliaid i edrych ar ôl anifeiliaid
- Mae person hŷn yn teimlo'n unig
- Mae parc lleol yn llawn sbwriel
- Nid oes gan deulu ddigon o fwyd
- Nid oes gan blant rywle diogel i chwarae

Gadewch i'r disgyblion feddwl am syniadau, ac yna egluro bod elusen yn fudiad sy'n helpu pobl, anifeiliaid, cymunedau neu'r amgylchedd

Ditectifs elusennol!

Rhowch gardiau i grwpiau gydag achosion gwahanol:

- Anifeiliaid
- Amgylchedd
- Iechyd
- Plant a phobl ifanc
- Pobl hŷn
- Digartrefedd
- Cymorth rhyngwladol
- Cymunedau lleol
- Lles meddyliol
- Y celfyddydau a diwylliant

Heriwch bob grŵp:

"Beth allai elusen sy'n gweithio yn yr ardal hon ei wneud?"

Eglurwch fod elusennau yn gweithio mewn llawer o wahanol ffyrdd — ac mae llawer yma yng Nghymru.

Beth ydych chi'n meddwl yw gwirfoddolwr?

Esboniwch fod gwirfoddolwr yn rhywun sy'n dewis rhoi ei amser, ei sgiliau neu ei egni i helpu eraill heb gael ei dalu amdano.

Yna ewch ati i chwarae **"Gwirfoddolwr neu beidio?"**

Darllenwch yr enghreifftiau isod a chael y plant i roi bawd i fyny neu i lawr:

- Helpu mewn ffair ysgol
- Casglu sbwriel yn eich parc lleol
- Ymweld â chymydog hŷn gyda'ch teulu
- Helpu mewn canolfan achub anifeiliaid
- Gwneud eich gwaith cartref
- Bod yn garedig i ddisgybl newydd
- Helpu elusen i gasglu rhoddion

Os hoffech drafod ymgyrch Wythnos Elusennau Cymru neu os oes gennych syniadau pellach ar sut y gall plant gymryd rhan mewn elusennau a gwirfoddoli, cysylltwch â partner@wcva.cymru

‘Dragon's Den’ Elusennau

Mewn grwpiau, rhowch 20 munud i'r disgyblion greu:

Enw a syniad elusen

Logo

Mae pob grŵp yn cael **dau funud** i gyflwyno eu helusen. Dylent ateb:

- Enw'r elusen yw...
- Rydyn ni eisiau helpu...
- Ein syniad yw...
- Gallai plant wirfoddoli trwy...

Yna mae'r dosbarth yn pleidleisio dros eu hoff syniad elusennol.

Ymchwil elusennol

Gofynnwch i'r disgyblion ymchwilio i **elusen go iawn yng Nghymru** a pharatoi cyflwyniad 2 funud:

- Beth mae'r elusen yn ei wneud?
- Pwy mae'n helpu?
- Ble mae'n gweithio?
- Sut mae'n gwneud gwahaniaeth?
- Sut allai rhywun wirfoddoli?
- Beth allai plant ei wneud i'w gefnogi?